**ATODIAD 1 – CYFLEOEDD I AELODAU YN YSTOD CAMAU ALLWEDDOL YN Y BROSES PARATOI'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

Paratoi'r Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus, sef ail ran y Cytundeb Cyflawni

1. Ymgynghori cyhoeddus: 14 Ebrill 2011 – 2 Mehefin 2011;

2. Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni ar 13 Medi a 20 Hydref 2011, yn y drefn honno.

Adolygu'r sail dystiolaeth a phenderfynu ar weledigaeth, amcanion, a strategaeth

3. Cyfnod cyfranogiad cyhoeddus: 8 Tachwedd 2011 – 31 Ionawr 2012;

4. Seminarau i holl Gynghorwyr: 25 Tachwedd 2011 (Ynys Môn); 5 Rhagfyr 2011 (Gwynedd); 7 Rhagfyr 2011 (Gwynedd);

5. Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Bwrdd Cyngor Gwynedd, Bwrdd Comisiynwyr Ynys Môn er mwyn cael penderfyniad am y cyfeiriad strategol.

Datblygu'r ddogfen Hoff Strategaeth

6. Seminarau i holl Gynghorwyr am bynciau amrywiol: Hydref 2012, Rhagfyr 2012, Ionawr 2013;

7. Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Cabinet Cyngor Gwynedd, Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, gyda'r ddau olaf yn gwneud penderfyniad ar gynnwys yr Hoff Strategaeth.

Datblygu'r Cynllun Adnau

8. Pwyllgor Iaith: Hydref 2013 – gwybodaeth am y fethodoleg asesu effaith ieithyddol;

9. Penderfynodd y Pwyllgor Iaith i sefydlu Grwp Tasg a Gorffen - Cynllunio a'r iaith Gymraeg i gynnwys trawsdoriad o Gynghorwyr. Pwrpas y Grwp yma oedd rhoi mewnbwn ar ran Cyngor Gwynedd, i sicrhau fod amcanion strategol y Cyngor mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg yn cael eu bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu polisïau cynllunio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Cafwyd Cyfarfodydd ym mis Tachwedd 2013 ac Ionawr 20014 - trafodaeth am y fethodoleg effaith ieithyddol, y sail dystiolaeth, datblygu proffiliau aneddleoedd i asesu effaith. Ni dderbyniwyd cynnig i ddiwygio'r fethodoleg nac awgrymiadau am ffynonellau tystiolaeth ychwanegol;

10. Seminarau i holl Gynghorwyr y ddwy Sir am faterion tai: Mai 2014;

11. Seminarau i holl Gynghorwyr a chynrychiolwyr Cynghorau Cymuned am faterion amrywiol: Hydref 2014, Tachwedd 2014;

12. Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: misol rhwng Gorffennaf 2013 – Tachwedd 2014 – ystyried y sylwadau a gafwyd am yr Hoff Strategaeth a chasgliadau tystiolaeth;

13. Cabinet Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn yn derbyn adroddiad am gynnwys y Cynllun Adnau ac yn ei gefnogi: Rhagfyr 2014;

14. Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn penderfynu ym mis Rhagfyr 2014 ar gynnwys y Cynllun Adnau, ac felly ei gadernid ar ôl ystyried y sylwadau, a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

<u>Datblygu'r Cynllun i'w gyflwyno ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus</u>

15. Cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adnau: Chwefror – Mawrth 2015.

16. Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: i ystyried gwrthwynebiadau am bolisïau a chynigion y Cynllun Adnau a thystiolaeth i gynorthwyo adnabod Newid â Ffocws os yn briodol: Ebrill 2015 – Ionawr 2016.

17. Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn penderfynu ym mis Ionawr 2016 ar Newidiadau â Ffocws i bolisïau a chynigion yn y Cynllun ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac i gyflwyno'r Cynllun Adnau efo'r Newid a Ffocws i'w Archwilio yn gyhoeddus.

18. Cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus am y Newidiadau â Ffocws: Chwefror – Mawrth 2016.

19. Gwrandawiadau Cyhoeddus yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus: Medi – Tachwedd 2016 & Ebrill 2017.

20. Cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus am Newidiadau Materion sy'n Codi: Ionawr – Mawrth 2017.